



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Crynodeb: Ymchwilio'r posibilrwydd o gael dadansoddiad ar lefel Cymru o'r Arolwg Panel Cartrefi Prydain a Deall Cymdeithas

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil Cymdeithasol

Rhif: 31/2014

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi safbwynt Cymreig ar ddefnyddioldeb Arolwg Panel Cartrefi Prydain (BHPS) a'i olynydd, Deall Cymdeithas (Understanding Society), i'w dadansoddi ar lefel Cymru. Caiff nodweddion sampl BHPS eu harchwilio drwy ddadansoddiad enghreifftiol o ddynameg tlodi yng Nghymru.
2. Roedd BHPS yn arolwg panel a aeth ati i olrhain unigolion a chartrefi dros gyfnod. Pan gychwynnwyd yr arolwg ym 1991, cysylltodd y BHPS â rhyw 5,500 o gartrefi a chyfweld â 10,300 o oedolion ym Mhrydain. Y meintiau sampl cyfatebol yng Nghymru oedd oddeutu 280 a 530 yn y drefn honno. Cynyddodd y sampl o Gymru i dros 3,000 o unigolion ym 1999 yn dilyn hwb i'r arolwg. Integreiddiwyd sampl BHPS i'r arolwg Deall Cymdeithas yn ystod Cam 2 yr astudiaeth newydd yn 2010, gan arwain at sampl gyfunol o dros 4,100 o ymatebwyr yng Nghymru.
3. Gellir defnyddio'r BHPS a Deall Cymdeithas i astudio amrywiaeth eang o drawsnewidiadau a welwyd gan unigolion a'r cartrefi y maent yn byw ynddynt, fel newidiadau mewn statws gweithgarwch economaidd neu newidiadau demograffig. O'u mesur yn eang, fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ymatebwyr yn gweld newidiadau yn eu hamgylchiadau o un flwyddyn i'r nesaf, a gall meintiau samplau sy'n gysylltiedig â mathau penodol o drawsnewid fod yn fach.
4. Un defnydd pwysig o'r BHPS yw bod mesurau ar gael ar gyfer incwm cartrefi net a ddeilliwyd gan ymchwilwyr i ddarparu safbwynt hydredol ar dlodi. Drwy ddefnyddio technegau dadansoddi priodol, a lle bo'n briodol cyfuno data dros flwyddyn, mae sampl Cymru o'r BHPS yn gallu rhoi ystod o ganlyniadau penodol i Gymru. Er enghraifft, yng Nghymru, roedd oddeutu 40% o'r rhai mewn tlodi yn ystod un flwyddyn ddim mewn tlodi bellach yn ystod y flwyddyn ddilynol.

Dadansoddi a gyfer Polisi



Analysis for Policy

5. Dangosir bod colli swydd a diddymu partneriaeth yn gysylltiedig â risg uwch o fynd i dlodi.
6. Fe wnaeth y dadansoddiad o dlodi roi rhywfaint o arweiniad hefyd i'r materion i'w hystyried wrth bennu dichonoldeb cynnal mathau penodol o ddadansoddiad gan ddefnyddio'r BHPS. Rhaid rhoi ystyriaeth i faint y boblogaeth sydd o ddiddordeb, mynychder y ffenomenau sy'n cael eu harchwilio, gallu a chymhwysedd cyfuno blynyddoedd o ddata am yr unigolion gyda'i gilydd, cyfnewidiadau posibl rhwng amseroldeb dadansoddi yn erbyn meintiau sampl, a pha un a yw dadansoddi ar lefel y DU sy'n cynnwys paramedrau penodol i Gymru, yn ffordd fwy priodol o nodi gwahaniaethau rhwng rhannau gwahanol o'r DU.

## **Barn ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrydd barn Llywodraeth Cymru**

### **Awdur:**

Rhys Davies

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd,  
Data a Dulliau Cymru

### **Cyswllt:**

Sarah Lowe

Ffôn: 029 2082 6229

Ebost: [sarah.lowe@wales.gsi.gov.uk](mailto:sarah.lowe@wales.gsi.gov.uk)

ISBN: 978-1-4734-1081-7

© Crown Copyright 2014